Rhestr Testunau

EISTEDDFOD GADEIRIOL
TREUDDYN

1863-1952 ac ers 1975 …

NEUADD YR YSGOL
DYDD SADWRN,
16eg. o DACHWEDD 2019

Drysau'n agored am 10.30y.b.
Yr Eisteddfod i gychwyn am 11.00 y.b. (dan 5 i 11oed)
ac am 6 o'r gloch y.h. (dros 11oed)

BEIRNIAID

CERDD, OFFERYNNOL, EMYN DÔN, ALAW WERIN, CERDD DANT
Catherine Eluned Jones, Bae Colwyn
Dafydd Lloyd Jones, Bae Colwyn

ADRODD
Ian Lloyd Hughes, Y Bala

LLÊN A LLÊN IEUENCTID
Gwynedd Huws Jones, Llidiardau, Y Bala

ARLUNIO, CREADIGOL A LLAWYSGRIFEN
Margaret Jones, Yr Wyddgrug

CYFEILYDDION
Margaret Roberts, Coedllai
Christopher Enston, Treuddyn

CYFEILYDD CERDD DANT (ar y piano)
Christopher Enston, Treuddyn

ARWEINYDDION
Nia Connah, Yr Wyddgrug; Huw Roberts, Creigiau, Caerdydd
Edwin Jones, Carrog; Hywel Wyn Edwards, Sychdyn

YSGRIFENYDDES

MRS. CEINWEN PARRY, Bryn Rhos, 7 Ffordd Carreg y Llech, Treuddyn
01352 771333

1. **RYDYM YN CYFYNGU CYSTADLEUTHAU'R LLWYFAN I'R OEDRAN 25 AC IAU, ETO ELENI.**

2. **BYDD CYSTADLEUTHAU LLÊN 1 – 8 A CHYFANSODDI EMYN DÔN YN <u>AGORED</u> I BOB OEDRAN, YN ÔL YR ARFER. HEFYD, BYDD CYSTADLEUAETH CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU FEL A GANLYN : PERFFORMIO DARN DIGRI – OED <u>AGORED.</u>**

3. **MAE EISTEDDFOD TREUDDYN YN GALLU CYNNIG GWOBR O £100.00 I'R CYSTADLEUYDD 15 – 25 OED MWYAF ADDAWOL YNG NGHYSTADLEUTHAU'R LLWYFAN, SEF ADRODD, CERDD, CERDD DANT AC OFFERYNNOL, AG EITHRIO'R GYSTADLEUAETH YSGOLORIAETH OFFERYNNOL DAN 21 OED, SYDD Â'I GWOBR EI HUN.**

RHEOLAU CYSTADLU

01. **RHAID bod yn yr oedran priodol ar yr 31ain. o Awst, 2019.**

02. **Bydd dyfarniad y BEIRNIAD yn derfynol a bydd gan y beirniad yr hawl i rannu, leihau neu atal gwobr.**

03. **Rhaid i ymgeiswyr y cystadleuthau hunan-ddewisiad sicrhau bod copi i'r beirniad a'r cyfeilydd. Bydd gan y cyfeilydd yr hawl i wrthod cyfeilio os nad yw wedi derbyn y copi bythefnos o flaenllaw, h.y. ERBYN DYDD SADWRN yr 2il o Dachwedd 2019.**

<u>CYFEILYDD</u> : Bydd rhyddid i blant dan 11oed, unigol, partion, offerynnol a chorau, ddod â'u cyfeilyddion eu hunain.

******* <u>Mae gwneud copi o gerddoriaeth/ o lenyddiaeth / o ryddiaeth argraffedig dan hawlfraint yn anghyfreithlon</u>. *******

04. **LLEFARU I DDYSGWYR**
(Adran Adrodd rhif 12, 13 ac 14)
Cystadleuaeth sydd yn agored i unrhyw un sydd wedi dysgu'r iaith Gymraeg fel oedolyn ac i ddisgyblion ysgol nad ydynt wedi derbyn addysg gyfrwng Gymraeg.

05. **AMLEN O'R MAINT CYWIR GYDA STAMP O'R GWERTH CYWIR I'W DDERBYN GAN YR YSGRIFENYDDES I BWRPAS DYCHWELYD Y CYFANSODDIADAU A'R BEIRNIADAETHAU LLÊN O FEWN MIS AR ÔL YR EISTEDDFOD.**
NI ELLIR DYCHWELYD GWAITH NA GWOBRAU OS NAD OES FFUGENW, ENW A CHYFEIRIAD GAN YR YSGRIFENYDDES.

06. **Cynhelir cystadleuthau dan 11oed yng nghyfarfod y prynhawn.**

07. **Bydd rhagbrawf dros 11oed a than 15 oed yn unig os bydd angen – ymofynner â'r Ysgrifenyddes i gadarnhau.**

08. **Bydd gan y pwyllgor hawl i newid y trefniadau fel bo gofyn.**

09. Ni fydd y pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamwain neu golled a all ddigwydd mewn cysylltiad â'r Eisteddfod.

10. RHAID i'r CYFANSODDIADAU a'r EMYN DÔN ddod i law Y BEIRNIAD PENODOL
● erbyn <u>DYDD LLUN 28ain. o Hydref, 2019</u> yn DDIFFAEL
●Ni sicrheir beirniadu gwaith ar ôl y dyddiad hwn.
●Cymraeg fydd iaith y cyfansoddiadau llenyddol.

(A) LLÊN 1 – 11 (oedolion a ieuenctid) – i law :
<u>Mr. Gwynedd Huws Jones,</u>
<u>Fferm Maes y Waun, Llidiardau, Y Bala, LL23 7SF</u>
● <u>ERBYN</u> Dydd Llun <u>28ain. o Hydref, 2019</u>.
<u>FFUGENW, ENW A CHYFEIRIAD</u> pob cystadleuydd i'r Ysgrifenyddes.

(B) <u>GWAITH ARLUNIO, CREADIGOL A LLAWYSGRIFEN I'R YSGRIFENYDDES</u> erbyn DYDD LLUN <u>4ydd. o Dachwedd 2019</u> FAN BELLAF.
<u>FFUGENW, ENW A CHYFEIRIAD</u> pob cystadleuydd i'r Ysgrifenyddes.
<u>SYLWER</u> : Ni fydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn gyfrifol am ddychwelyd gwaith yn Adran (B) i'r ymgeiswyr. Bydd angen casglu'r gwaith o Ysgol Terrig cyn diwedd mis Tachwedd.

(C) <u>EMYN DÔN – i law :</u>
Mr. Dafydd Lloyd Jones, 9 Glyn Avenue, Bae Colwyn, Conwy, LL29 8RB
<u>ERBYN</u> Dydd Llun <u>28ain. o Hydref, 2019.</u>
<u>FFUGENW, ENW A CHYFEIRIAD</u> pob cystadleuydd i'r Ysgrifenyddes.
GWOBR : £12.00; £8.00

<u>CYSTADLEUAETH CYFANSODDI TÔN ADDAS</u> i'r geiriau isod o waith Dr. Aled Lloyd Davies gyda chaniatad Mrs. Beryl Lloyd Davies.

Am eiriau wedi'u plethu'n dynn
mewn emyn, rhoddwn foliant.
Am ddawn y bardd, a chrefftwaith hwn,
fe ganwn er D'ogoniant.

Diolchwn am emynwyr lu
fu'n canu am Dy Gariad.
Trwy ddethol gair yn gelfydd iawn,
cydrannu gawn eu profiad.

Ac mewn priodas gair a chân
cawn hafan o'n pryderon.
Fe gawn mewn emyn, fel mewn salm,
eli dry'n falm i'r galon.

Am eiriau beirdd yr awen gu
fu'n canu drwy'r canrifoedd;
am waddol deg i ni a'n plant
Rhown foliant yn oes oesoedd.

Aled Lloyd Davies.

MAE'N RHAID I ENWAU'R CYSTADLEUWYR LLWYFAN DDOD I LAW WYTHNOS CYN YR EISTEDDFOD ERBYN Y 9fed. o DACHWEDD 2019.

ADRODD

01. Dan 5 oed : **CYSUR**
Cerddi Cyntaf, Myrddin ap Dafydd; Gwasg Carreg Gwalch
Medal a £5.00 i'w rannu

02. Dros 5 a than 7 oed : **DWEUD DIM (3 pennill)**
Dwli o Ddifri, Ceri Wyn Jones; Gwasg Gomer
Tlws; Medal a £5.00 i'w rannu

03. Dros 7 a than 9 oed : **SBWRIEL**
Cerddi Poeth ac Oer, Zac Davies; Y Lolfa
Tlws a £5.00; Medal a £3.00; £2.00

04. Dros 9 a than 11 oed : **Y STORM**
Penillion y Plant, T. Llew Jones; Gwasg Gomer
Tlws a £5.00; Medal a £3.00; £2.00

05. Dysgwyr dan 9 oed : **TIWN GRON MAM**
Nesa' i Adrodd, Selwyn Griffith; Gwasg Pantycelyn
Tlws a £5.00; Medal a £3.00; £2.00

06. Dysgwyr dros 9 a than 11 oed :
DYN Y TYWYDD
Ticiti Toc, Zohrah Evans; Gwasg Gomer
••COPÏAU AR GAEL GAN YR YSGRIFENYDDES••
Tlws a £5.00; Medal a £3.00; £2.00

07. Parti dan 11 oed
(ysgolion dros 100 o ddisgyblion CA2; dim llai na 6 mewn nifer) :
HUNANDDEWISIAD *£10.00; £5.00*

08. Parti dan 11oed
(ysgolion gyda llai na 100 o ddisgyblion CA2; dim llai na 6 mewn nifer) :
HUNANDDEWISIAD *£10.00; £5.00*

09. Parti Dysgwyr dan 11 oed; (dim llai na 6 mewn nifer):
HUNANDDEWISIAD *£10.00; £5.00*

10. Dros 11 a than 15 oed : **HUNANDDEWISIAD**
Tlws a £10.00; Medal a £6.00; £4.00

11. Dros 15 a than 18 oed : **HUNANDDEWISIAD** *Tlws ac £20.00; £10.00*

12. Dysgwyr dros 11 a than 15 oed : HUNANDDEWISIAD
(Gweler Rheolau Cystadlu Rhif 4) *Tlws a £10.00; Medal a £6.00; £4.00*

13, Dysgwyr dros 15 a than 18 oed : HUNANDDEWISIAD
(Gweler Rheolau Cystadlu Rhif 4) *Tlws ac £20.00; £10.00*

14. Llefaru Unigol i Ddysgwyr dros 18 a than 25 oed : HUNANDDEWISIAD
(Gweler Rheolau Cystadlu Rhif 4) *£30.00; £15.00*

15. Adroddiad dros 18 a than 25 oed : **HUNANDDEWISIAD**
[Heb fod dros 7 munud]
£30.00; £15.00

16 Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Awst 2019 – Gorffennaf 2020

PERFFORMIO DARN DIGRI'

Oed – AGORED

£20.00; £15.00; £10.00

Bydd ennill gwobr (1af, 2il neu 3ydd) mewn 2 eisteddfod leol rhwng Awst 2019 a Gorffennaf 2020 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol 2020. Am fwy o fanylion cysyllter â'r ysgrifenyddes neu www.steddfota.org

OFFERYNNOL

[pob cystadleuaeth : HUNANDDEWISIAD]

01. Unawd piano dan 11 oed *Tlws a £5.00; Medal a £3.00; £2.00*

02. Unawd offerynnol (ag eithrio piano) dan 11oed
Tlws a £5.00; Medal a £3.00; £2.00

03. Unawd piano dros 11 oed a than 15 oed
Tlws a £10.00; Medal a £6.00; £4.00

04. Unawd offerynnol [ag eithrio piano] dros 11 a than 15oed
Tlws a £10.00; Medal a £6.00; £4.00

05. Unawd piano dros 15 a than 21 oed
Gwobr Goffa Eiluned o Lŷn am flwyddyn
Tlws i'w gadw a £20.00; £10.00

06. Unawd offerynnol [ag eithrio piano] dros 15 a than 21oed
Gwobr Goffa Olwen Jones YH am flwyddyn
Tlws i'w gadw a £20.00; £10.00

07. Deuawd piano neu offerynnol dan 21 oed
£25.00; £12.00

08. Deuawd piano neu offerynnol dros 21 a than 25 oed
£30.00; £15.00

09. CYSTADLEUAETH YSGOLORIAETH

Unawd Offerynnol GAN GYNNWYS Y PIANO dan 21 oed

Gwobr : £250.00 – rhodd gan Gyngor Cymuned Treuddyn

HUNANDDEWISIAD heb fod yn hwy na 7 munud

- **Dewis o un neu fwy o ddarnau o fewn amser perfformio o 7 munud**
- **Gellir perfformio gyda chyfeilydd nad ydyw'n gyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod.**
- **Pe dymunir cael gwasanaeth cyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod cysyllter ag o erbyn Dydd Sadwrn yr 2il. o Dachwedd 2019, sef**

Christopher Enston, Hillgrove, Ffordd Corwen, Treuddyn, Yr Wyddgrug CH7 4LD

- **Bydd hawl gan y beirniad i rannu, i leihau neu i atal y wobr**
- **Ni chaniateir i fuddugwyr yn y gystadleuaeth hon, sydd eisoes wedi ennill y**

wobr yn llawn, ail-ymgeisio.

CERDD

01. Unawd dan 5 oed : **JAC CODI BAW**
Falyri Jenkins, Codi Bawd a Deud Helo; Y Lolfa
Medal a £5.00 i'w rannu

02. Unawd dros 5 a than 7 oed : **WIL CWAC CWAC (pennill cyntaf yn unig)**
Mae gen i Gân, Leah Owen a Selwyn Griffith; Cyhoeddiadau Curiad
Tlws, Medal a £5.00 i'w rannu

03. Unawd dros 7 a than 9 oed : **BREUDDWYDIO (Pennill 1 a 3)**
Hwyl ar y Gân, Gilmor Griffiths; Y Lolfa
Tlws a £5.00; Medal a £3.00; £2.00

04. Unawd dros 9 a than 11 oed : **WEDI'R GAEAF**
Hwyl ar y Gân, Gilmor Griffiths; Y Lolfa
Tlws a £5.00; Medal a £3.00; £2.00

05. Parti Unsain dan 11 oed (ysgolion dros 100 o ddisgyblion CA2):
HUNANDDEWISIAD
Cwpan am flwyddyn a £10.00; £5.00

06. Parti Unsain dan 11 oed (ysgolion gyda llai na 100 o ddisgyblion CA2)
HUNANDDEWISIAD
Cwpan am flwyddyn a £10.00; £5.00

07. Unawd dros 11 a than 15 oed : **HUNANDDEWISIAD**
Tlws a £10.00; Medal a £6.00; £4.00

08. Unawd dros 15 a than 18 oed : **HUNANDDEWISIAD**
Tlws a £20.00; £10.00

09. Deuawd dan 18 oed : **HUNANDDEWISIAD** *£25.00; £12.00*

10, Deuawd dros 18 a than 25 oed : **HUNANDDEWISIAD** *£30.00; £15.00*

11. Unawd Gymraeg dros 18 a than 25 oed : HUNANDDEWISIAD
£30.00; £15.00

Noder : unrhyw unawd arall (e.e. sioe gerdd) yn mynd I gystadleuaeth Sgen ti Dalent?

PWYSIG
Gweler Rheolau Cystadlu : RHEOL 03
Bydd y Cyfeilydd yn falch o dderbyn copïau o'r caneuon a ddewisir gan y cystadleuwyr ar gyfer cystadlaethau 4-11.
Anfoner y rhain at – Christopher Enston,
Hillgrove, Ffordd Corwen, Treuddyn, Yr Wyddgrug, CH7 4LD
erbyn Dydd Sadwrn yr 2il. o Dachwedd, 2019.

CERDD DANT

[pob cystadleuaeth – hunanddewisiad]

Y CYSTADLEUWYR I SICRHAU COPI I'R CYFEILYDD YN Y CYWEIRNOD CYWIR

01. Unawd dan 11 oed : *Tlws a £5.00; Medal a £3.00; £2.00*

02. Unawd dros 11 a than 15 oed : *Tlws a £10.00; Medal a £6.00; £4.00*

03. Unawd dros 15 a than 18 oed : *£20.00; £10.00*

04. Unawd dros 18 a than 25 oed : *£30.00; £15.00*

SGEN TI DALENT?

£50.00 - i'w rannu fel mae'r beirniad yn dymuno.

Unigolion / Grwpiau dan 25 oed

Hyd at 4 munud i ganu, dawnsio, action lefaru, dweud jôcs, chwarae offeryn, perfformio sgiliau syrcas – UNRHYW BETH i ddifyrru'r gynulleidfa.

1. **Rhaid i'r perfformiad fod yn weddus i gynulleidfa deuluol.**
2. **Rhaid i'r perfformiad fod yn yr iaith Gymraeg neu'n ddi-iaith.**
3. **Ni chaniateir perfformio darn a berfformir mewn cystadleuaeth arall yn yr Eisteddfod hon.**

Noddir y gystadleuaeth gan GYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU.

ARLUNIO

THEMA : ARWYDDION YR HYDREF

01. Dan 5 oed :	**DAIL YN DISGYN**	*£5.00 i'w rannu*
02. Dros 5 a than 7 oed :	**NOSON TÂN GWYLLT**	*£5.00 i'w rannu*
03. Dros 7 a than 9 oed :	**CALANGAEAF**	*£10.00 i'w rannu*
04. Dros 9 a than 11 oed :	**ANIFEILIAID SY'N GAEAFGYSGU**	*£10.00 i'w rannu*

CREADIGOL

01.Dan 9 oed :

DARLUN (dim mwy na 30cm sgwar) WEDI EI GREU O FOTYMAU
£10.00 i'w rannu

02.Dros 9 a than 11 oed :

CYMERIAD NEU ANIFAIL (dim mwy na 30cm o hyd) WEDI EI GREU O FOTYMAU *£10.00 i'w rannu*

LLAWYSGRIFEN

01. Dan 9 oed :

PENNILL A CHYTGAN O 'CALON LÂN'
£10.00 i'w rannu

02. Dros 9 a than 11 oed :

PENNILL A CHYTGAN O 'SOSBAN FACH'
£10.00 i'w rannu

LLÊN

01 – 08 : OED AGORED
09 – 11 : LLÊN IEUENCTID
Gweler Rheolau Cystadlu : RHEOL 11(A) tudalen 3
Cystadlaethau 01 – 11 (ieuenctid ac oedolion) at y beirniad :
GWYNEDD HUWS JONES,
Fferm Maes y Waun, Llidiardau, Y Bala, LL23 7SF
ERBYN DYDD LLUN y 28ain. o HYDREF 2019

01. CYSTADLEUAETH Y GADAIR (Un gerdd, casgliad o gerddi neu ddilyniant, caeth neu rydd, heb fod dros 150 llinell)
BLYCHAU / CANLLAWIAU
£50.00 a model o gadair o waith Mr. John Parry, Porthmadog.

02. ENGLYN **GWAS PRIODAS** *£7.00; £5.00*
03. DYCHANGERDD / CERDD DDONIOL
CERDYN PLEIDLEISIO *£7.00; £5.00*
04. EMYN **CENHADOL** *£7.00; £5.00*
05. TELYNEG **CLOCH Y LLAN** *£7.00; £5.00*
06. STORI FER **HUNANDDEWISIAD** *£25*
07. LIMRIG **DAETH TEULU I DREUDDYN AM WYLIAU …..** *£7.00; £5.00*
08. 3 PENNILL TELYN / TRIBAN
OFERGOELION *£7.00; £5.00*

LLÊN IEUENCTID

09. Dan 11 oed (ysgol gynradd hyd at Bl. 6)
MI HOFFWN FYND I WELD…. *£5.00; £3.00; £2.00*
10. 11 – 15 oed (ysgol uwchradd Bl. 7 – Bl. 10)
TAITH *£5.00; £3.00; £2.00*
11. 15 - 19 oed **DAU DDARN O WAITH YSGRIFENEDIG**
Tlws Papur Fama am flwyddyn a £7.00; £5.00

MAE'N RHAID I ENWAU'R CYSTADLEUWYR LLWYFAN DDOD I LAW WYTHNOS CYN YR EISTEDDFOD ERBYN Y 9fed. o DACHWEDD 2019.